**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2009**

**Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG 2010-13**

**Adroddiad gan Colin Hanks**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2010-13 sy'n adeiladu ar y Cynllun diwethaf (2006-09), cyn iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus.

## Cefndir

2 Dyma drydydd Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sy'n adeiladu ar ein dau gynllun cyntaf a gyhoeddwyd yn 1999 a 2006. Ers cyhoeddi'r cynllun diwethaf, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd rhagorol yn wrth fynd ati i wella'r gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn eu darparu. Cyrhaeddwyd cerrig milltir pwysig yn ein hamcan o roi sbardun ac egni newydd yn ein gweithgarwch, ac mae proffil y Gymraeg yn y Gwasanaeth yn wir wedi codi.

## Gwybodaeth

3 Mae'r cynllun diwygiedig yn amlinellu ein Strategaeth Sgiliau Iaith a lansiwyd yn gynharach eleni ac sy'n seiliedig ar ddull graddol o gyrraedd ein nodau dros y tair i bum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn darparu isadeiledd cynlluniedig a strategol ar gyfer rhoi ein nodau ar waith yn y dyfodol. Yn hanfodol, mae hyn yn golygu staffio'r Gwasanaeth yn unol â'r Cynllun Iaith er

mwyn bod modd darparu gwasanaeth sy'n gyfartal o ran ansawdd, cyfleuster a lled, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n golygu bodloni anghenion gwasanaethau lle mae prinder siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu, a hynny trwy fabwysiadu a gweithredu'r strategaeth hon.

4 Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod newydd o'r staff, a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, i ddysgu lefel sylfaenol o Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth, ar y cyd â Choleg Llysfasi a chyngor gan Heddlu Gogledd Cymru, wedi llunio a recordio dau CD newydd i arwain dysgwyr trwy'r broses o ddysgu cyfarchion sylfaenol a sut i ynganu - ac mae gofyn i bawb sy'n cael eu penodi neu eu dyrchafu o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gymryd rhan mewn prawf llafar yn y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ynganu enwau a chyfarch pobl yn gywir - y prawf Lefel 1 o fis Ionawr 2009 ymlaen, a phrawf Lefel 2 o fis Ionawr 2010 ymlaen.

5 Mae'r cynllun diwygiedig hefyd yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle - yn ogystal ag yn y gymuned a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i bobl Gogledd Cymru. Trwy hyn, rydym yn gobeithio cael gwasanaeth cwsmer sydd hyd yn oed yn well, a chodi lefel sgiliau ein gweithlu trwy eu hannog i ddysgu'r Gymraeg ac i ddefnyddio eu sgiliau wrth gyfathrebu. Yn ddiweddar, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o glywed ei fod wedi llwyddo i gael grant o £4,500 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gynorthwyo i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth.

6 Mae'r cynllun diwygiedig yn dweud beth yw ein nod yn y pen draw, sef meithrin Gwasanaeth sy'n hollol mewn cytgord â'r cyhoedd Cymraeg, ac sy'n dangos cwrteisi ac empathi at iaith a diwylliant Cymru, a fydd yn sicrhau bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaeth prydlon, cwrtais, cyfartal a llwyr, wedi ei ddarparu gan weithlu bodlon a hyderus.

## Argymhelliad

7 Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Iaith diwygiedig am y cyfnod 2010-13 cyn iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus.